Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

5. Ymddiriedolwyr a llywodraethu

5.3 Y corff llywodraethu a swyddogion anrhydeddus

Y Corff Llywodraethu

Dylai fod gan bob mudiad strwythur rheoli, ac mae'r bobl hynny sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol ac ariannol am ei redeg yn cael eu hadnabod fel Corff Llywodraethu (CLl). Yn y sector gwirfoddol, mae CLl yn cael ei adnabod wrth amryw o enwau, gan gynnwys:

- Byrddau rheolwyr, ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr
- pwyllgorau rheoli
- cynghorau rheoli
- pwyllgorau gweithredol
- ac ati.

Pa bynnag enw a roddir ar y CLl, dyma'r corff sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am redeg y mudiad. Strwythur cyfreithiol y mudiad fydd yn penderfynu beth yn union fydd natur ei CLl:

- Cymdeithas anghorfforedig heb CLl ar wahân – yr aelodaeth gyfan yw'r CLl.
- Cymdeithas anghorfforedig gyda CLl ar wahân - y grŵp hwn o bobl a etholwyd ar wahân yw'r CLl.
- Ymddiriedolaeth - y CLl yw'r ymddiriedolwyr a enwir yn y ddogfen ymddiriedolaeth.
- Cwmni cyfyngedig trwy warant/ cyfranddaliadau neu Gwmni Buddiannau Cymunedol - y CLl yw cyfarwyddwyr y cwmni a enwir yn y Memorandwm Sefydlu.
- Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus - y CLl yw'r pwyllgor rheoli a enwir yn y Rheolau.
- Partneriaeth - y CLl yw'r partneriaid a enwir yn y ddogfen bartneriaeth.

Os yw'r mudiad yn elusen gofrestredig hefyd bydd yr unigolion hynny sy'n ffurfio'r CLl yn cael eu hadnabod fel 'ymddiriedolwyr'. (Sylwer: ni all rhai mudiadau fel Cwmnïau Buddiannau Cymunedol a phartneriaid gofrestru fel elusennau). Y rheswm am hyn yw bod y gyfraith elusennau'n dweud bod unrhyw *'… persons having the general control and management of the administration of a charity'* yn ymddiriedolwyr elusen (Adran 97(1) Deddf Elusennau 1993). Gall hyn ymddangos yn ddryslyd, ond os meddyliwch am statws elusennol fel bod yn ychwanegol at eich strwythur cyfreithiol presennol, cwmni er enghraifft, yna gwelir bod y cyfarwyddwyr yn ymddiriedolwyr hefyd gan fod y cyfarwyddwyr yn ffurfio'r corff llywodraethu a bod ganddynt reolaeth gyffredinol dros y mudiad a'u bod hefyd yn ei reoli.

Pwy sy'n aelodau o'r Corff Llywodraethu?

Fel arfer bydd dogfen lywodraethu'r mudiad yn amlinellu cyfansoddiad a gweithdrefnau'r CLl, ac yn enwi ei aelodau cyntaf. Bydd y broses o benodi, cylchdroi, ymddeol, ac ymddiswyddo'n cael ei gwneud yn unol â'r ddogfen lywodraethu. Nid oes rhaid i aelodau'r CLl fod yn aelodau o'r mudiad bob tro, ond byddant yn aelodau fel arfer. Gellir penodi'r aelodau mewn cyfarfodydd cyffredinol neu gall y CLl ei hun eu penodi. Bydd y ddogfen lywodraethu'n aml yn enwi swyddi **Swyddogion Anrhydeddus** penodol, megis Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd, ond mae'n bwysig cofio nad yw'r rhain yn rhoi unrhyw bwerau neu gyfrifoldebau cyfreithiol ychwanegol (y tu hwnt i'r rhai a enwir yn y ddogfen lywodraethu) na'r hyn sydd gan aelodau eraill y CLl (gweler isod).

Gall y ddogfen lywodraethu hefyd ganiatáu'r CLl i wahodd pobl eraill i wasanaethu arno - mae hyn yn cael ei adnabod fel cyfethol. Gallant fod yn aelodau o'r mudiad ond gallant hefyd ddod o'r tu allan, a byddant yn cael eu cyfethol fel arfer am fod ganddynt sgiliau neu wybodaeth benodol.

Sylwer: Gall grŵp bychan iawn gwrdd yn anffurfiol heb CLl etholedig. Mae llawer o grwpiau heb nodau a gweithgareddau uchelgeisiol iawn yn cael eu rhedeg yn llwyddiannus iawn fel hyn. Mewn achos o'r fath, y grŵp hwn yn ei gyfanrwydd yw'r CLl ac mae pawb yn gyfrifol am redeg y mudiad.

Y CLl ac is-bwyllgorau

Mae'n gwbl gyfreithlon i CLl ddirprwyo awdurdod a swyddogaethau i is-bwyllgorau pwrpasol. Unwaith eto, ceir amrywiaeth o enwau ar y rhain (e.e. gweithgorau), ond maent bob amser yn atebol i'r CLl. Gellir sefydlu'r rhain i ganolbwyntio ar brosiectau penodol neu feysydd arbenigol megis cyllid, staff ayb. Bydd cyfrifoldeb cyfreithiol am unrhyw benderfyniadau a wneir gan yr is-bwyllgorau yn parhau i fod yn nwylo'r CLl.

Er mwyn gweinyddu eu pwerau dirprwyo'n llawn, rhaid i'r CLl sicrhau bob amser bod ganddo gylchoedd gorchwyl ysgrifenedig eglur ar gyfer unrhyw waith a chyfrifoldeb sy'n cael ei ddirprwyo i is-bwyllgorau. Dylai hyn gynnwys system eglur i fonitro ac adrodd i sicrhau bod y swyddogaethau dirprwyedig yn cael eu gweinyddu'n unol â'r cylchoedd gorchwyl. Trwy gadw rheolaeth lem ar yr hyn sydd wedi'i ddirprwyo, bydd y CLl yn cyflawni ei holl rwymedigaethau cyfreithiol, yn lleihau'r perygl y gall rhywbeth fynd o'i le (a denu atebolrwydd cyfreithiol) a chyfrannu at reoli'r mudiad yn ddidrafferth.

Fel yn achos enwau CLlau yn gyffredinol gall dryswch godi o bryd i'w gilydd yn achos enwau is-bwyllgorau yn y mudiad. Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y CLl ac unrhyw is-bwyllgorau a ymddengys sydd â rheolaeth dros reoli. Er enghraifft, os gelwir y CLl yn rhywbeth fel Cyngor neu Fwrdd, mae perygl y bydd is-bwyllgor hefyd yn cael ei adnabod fel Pwyllgor, Pwyllgor Rheoli, Pwyllgor Gweithredol ayb. Bydd yr is-bwyllgorau hyn yn gweinyddu awdurdod a swyddogaethau dirprwyedig ond y CLl fydd â chyfrifoldeb cyfreithiol ac ariannol terfynol dros y mudiad. Os nad ydych yn siŵr beth yn union yw'r sefyllfa yn eich mudiad mae'n debyg y bydd yr ateb i'w gael yn eich

dogfen lywodraethu. Os na fydd hyn yn datrys eich penbleth, cysylltwch â ni am gyngor pellach.

Canghennau a grwpiau

Mewn mudiadau mwy, mae'n bosibl y dewch ar draws strwythur canghennau - mae gan hyn oblygiadau o ran y ffordd y mae'r CLl yn gweithredu. Gall cangen fod yn:

- **Cyfannol** lle mai dim ond un mudiad sy'n bodoli ac mae'r gangen yn cael ei sefydlu fel maes gweithgarwch ar wahân. Fel arfer bydd y rhain yn cael eu rheoli gan bobl nad ydynt yn aelodau o'r corff llywodraethu ond sydd yn hytrach yn grŵp rheoli penodol sy'n gweinyddu pwerau a ddatganolwyd gan y CLl. Gelwir y rhain yn aml yn ganghennau neu bwyllgorau neu rywbeth tebyg. Mewn sefyllfaoedd o'r fath dylai'r CLl sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei ddirprwyo'n cael ei reoli'n effeithiol gyda chylchoedd gorchwyl eglur, adrodd digonol a systemau cyfrifo ac, os bydd angen, dogfen gyfansoddiadol ar gyfer y gangen sy'n ymwneud â phenodi aelodau'r pwyllgor, galw cyfarfodydd ayb.
- Yn **annibynnol** o'r prif fudiad ond yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd, fel arfer trwy gytundeb cyswllt ffurfiol. Dyma fydd yn digwydd yn aml yn achos mudiad ymbarél, megis CAB neu rwydwaith yr YMCA. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, dylai CLl y rhiant-fudiad sicrhau bod y mudiadau cyswllt annibynnol yn cydymffurfio â thelerau'r cytundeb ac nad ydynt yn gwneud unrhyw beth i niweidio enw da'r rhiant-fudiad.

Bydd **grŵp** yn bodoli pan fydd gan un elusen reolaeth gyfreithiol dros un arall. Gwelir hyn amlaf yn achos cwmnïau masnachu elusennol lle mae elusen yn sefydlu cwmni masnachu sy'n gyfreithlon annibynnol ond sydd er hynny â rheolaeth drosto trwy ei reolaeth dros ei gyfranddaliadau.

Gall y cysylltiadau hyn fod yn gymhleth, yn enwedig pan fydd lefel y rheolaeth a weinyddir gan y rhiant-fudiad yn dechrau llacio. Os digwydd hyn gall y CLl golli rheolaeth gyfreithiol dros y gangen neu grŵp, fel arfer pan fydd canghennau sydd wedi bodoli ers peth amser a bod y bobl sy'n eu rhedeg yn ceisio cael rheolaeth annibynnol drosto. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'n bwysig gwybod pa un yw'r gwir CLl. Dylai cyrff llywodraethu fod yn bendant ynghylch y llinellau awdurdod a rheoli pan fydd ganddynt ganghennau a grwpiau. Os oes dryswch, y prif brawf yw canfod yr union berthynas gyfreithiol sy'n ymwneud â lefel y rheolaeth sydd gan un mudiad dros un arall. Gellir asesu hyn mewn nifer o ffyrdd:

- trwy edrych ar y ddogfen lywodraethu
- unrhyw gytundebau eraill neu ddogfennau cyfansoddiadol sy'n bodoli rhyngddynt
- y pŵer i benodi neu ddisodli'r CLl/aelodau'r pwyllgor
- systemau cyfrifo ar y cyd
- y defnydd o enw'r rhiant-fudiad.

Mae rhai rhwymedigaethau Treth, TAW a chyfrifo ynghlwm â strwythurau cangen a grŵp, ond bydd y rhain yn ddibynnol ar union natur y berthynas. Mae'r rhain y tu hwnt i

faes y daflen wybodaeth hon, ond gallwch gysylltu â'ch CGS lleol neu WCVA am ragor o wybodaeth.

Cyfrifoldebau'r CLl

Mae cyfrifoldebau'r CL yn eang iawn ac ymdrinnir â hwy'n fwy manwl yn ein taflen wybodaeth *5.2 Rôl a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr*. Bydd dealltwriaeth drylwyr o'r cyfrifoldebau hyn yn helpu i egluro sut y dylai CLl weithredu a'r strwythurau priodol sydd eu hangen i gyflawni hyn. Mae *Llywodraethu Da - Cod i'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol* a gynhyrchwyd gan Governance Hub, yn amlinellu'r cyfrifoldebau hyn a dywed:

- Mae llywodraethu da yn hanfodol i lwyddiant unrhyw fudiad...mae aelodau'r Bwrdd yn chwarae rhan hanfodol wrth wasanaethu eu hachosion a'u cymunedau.
- Y byrddau sy'n gosod y weledigaeth hirdymor ac yn diogelu enw da a gwerthoedd eu mudiadau. Er mwyn gwneud gwahaniaeth mae angen i fwrdd gael gweithdrefnau a pholisïau priodol ar waith ond mae hefyd angen iddynt weithio'n dda fel tîm a chynnal cydberthnasau da o fewn y mudiad.

Mae *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i Ymddiriedolwyr a Phwyllgorau Rheoli* yn ategu'r Cod ac maent yn amlinellu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd angen eu rhoi ar waith. Mae *Nodweddion Elusen Effeithiol* (CC10) yn amlinellu'r safonau y mae'r Comisiwn Elusennau'n disgwyl eu gweld mewn CLl elusen effeithiol.

Gwaith y CLl

Yn ychwanegol at y gweithdrefnau a'r gofynion a amlinellir yn y ddogfen lywodraethu, mae angen i'r CLl fabwysiadu arferion i sicrhau bod y mudiad yn cael ei redeg mewn ffordd ddidrafferth ac effeithlon. Gan fod ei aelodau i gyd yn gyfrifol mae'n amlwg y dylent fod yn gweithio mewn ffordd gyfunol a chydweithredol. Gellir cyflawni hyn trwy sicrhau:

- trefniadau cynefino cynhwysfawr i aelodau newydd y CLl
- gweithdrefnau priodol i gyfnewid gwybodaeth, galw cyfarfodydd, adrodd ayb
- diffiniad eglur o rolau a chyfrifoldebau
- polisïau priodol i ymdrin ag amgylchiadau megis gwrthdaro budd ayb
- mecanweithiau i ddatrys anghydfodau
- cadw cofnodion manwl (yn enwedig cofnodion cyfarfodydd)
- cefnogaeth weinyddol ac ysgrifenyddol ddigonol
- hyfforddiant a datblygiad parhaus.

Er bod disgwyl i'r CLl gyflwyno gweithdrefnau gweinyddol nad ydynt yn mynd yn groes i'r ddogfen lywodraethu, mae gan rai mudiadau bwerau penodol hefyd i wneud rheolau sy'n ymwneud â sut y mae'r mudiad a'r CLl yn cael eu rhedeg. Mae gan y rhain effaith gyfreithiol sy'n cael eu hadnabod fel: is-ddeddfau, rheolau sefydlog, rheoliadau neu reolau.

Y grŵp Swyddogion Anrhydeddus

Gall fod yn ddefnyddiol i gael grŵp bychan o **Swyddogion Anrhydeddus** sy'n:

- gyfrifol am swyddogaethau dirprwyedig penodol
- gwneud penderfyniadau dirprwyedig ar ran y CLl
- delio â materion sydd angen sylw rhwng cyfarfodydd llawn o'r CLl
- arwain wrth baratoi busnes ar gyfer cyfarfodydd o'r CLl
- gweithredu fel dolen gyswllt rhwng y staff a'r CLl
- rhannu'r dasg o gynrychioli'r mudiad yn gyhoeddus gyda'r prif weithredwr
- bod yn aelod o banelau recriwtio, disgyblu ac apelio.

Cyfansoddiad y grŵp swyddogion

Mae'r Swyddogion Anrhydeddus fel arfer yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd. Bydd eu rôl a'r dull o'u hethol yn cael ei amlinellu yn y ddogfen lywodraethu gan amlaf, ond os nad yw hynny wedi'i gynnwys ynddi, gall aelodau'r CLl benderfynu creu'r rolau hyn ymhlith ei gilydd. Fel arfer cânt eu hethol gan aelodau'r CLl, ond weithiau bydd y ddogfen lywodraethu'n datgan y dylent gael eu hethol gan yr aelodau mewn cyfarfod cyffredinol.

Rolau a chyfrifoldebau

Nid yw Swyddogion Anrhydeddus yn mwynhau mwy o bwerau a chyfrifoldebau na'u cyd-aelodau o'r CLl oni bai bod y rhain wedi eu pennu yn y ddogfen lywodraethu, wedi eu pennu gan y gyfraith neu eu dirprwyo gan y CLl yn ei gyfanrwydd. Ni allant weithredu ar ran y CLl oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi i wneud hynny, fel arall, dylai swyddogion anrhydeddus weithredu mewn rôl ymgynghorol yn unig. **Nodwch** ei bod yn bwysig bod gan ddeiliad pob un o'r swyddi **swydd ddisgrifiad** i sicrhau bod pawb yn gwybod beth yn union yw eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r *Cod Llywodraethu'n* rhoi canllawiau ar egluro rolau, dirprwyo a monitro. Mae prif elfennau pob rôl fel a ganlyn:

Y Cadeirydd

Mae gan y Cadeirydd rôl bwysig a sylweddol i arwain y mudiad trwy:

- weithredu fel ffigur arweiniol y mudiad a phennu ei gyfeiriad
- cynrychioli'r mudiad yn gyhoeddus a siarad ar ei ran
- bwrw trosolwg dros y mudiad a'i waith
- sicrhau bod y mudiad yn cydymffurfio â'r ddogfen lywodraethu a'r polisïau
- gweinyddu awdurdod penodedig a dirprwyedig
- awdurdodi gweithgarwch rhwng cyfarfodydd o'r CLl llawn
- sicrhau bod y CLl yn gweithredu'n effeithiol
- arwain a rheoli'r CLl a chyfarfodydd cyffredinol
- paratoi agendâu'r cyfarfodydd (gyda'r ysgrifennydd fel arfer) a dosbarthu'r wybodaeth angenrheidiol ymlaen llaw
- gweithio gyda, goruchwylio a chynorthwyo'r prif swyddog gweithredol
- gweithredu fel cyfrwng cyfathrebu rhwng ymddiriedolwyr a staff

- llofnodi sieciau a dogfennau cyfreithiol
- cefnogi ac annog aelodau eraill y CLl a staff.

Ceir dryswch weithiau ynghylch yr hyn a adwaenir yn aml fel '**Gweithred y Cadeirydd**'. Os oes rhaid gwneud penderfyniad brys rhwng cyfarfodydd o'r CLl ni chaniateir i'r Cadeirydd ddefnyddio pwerau penderfynu unochrog oni bai fod yr awdurdod penodol hwnnw wedi'i gynnwys yn y ddogfen lywodraethu neu ei fod wedi'i ddirprwyo gan y CLl. Fel arall nid oes gan Gadeirydd hawl cynhenid i wneud penderfyniadau unigol. Fel arfer, os oes ansicrwydd ynghylch unrhyw fater, dylai'r Cadeirydd ymgynghori â'r Swyddogion Anrhydeddus eraill, aelodau'r CLl neu uwch staff. Dylid hysbysu'r CLl neu grŵp perthnasol am unrhyw benderfyniadau o'r fath yn y cyfarfod cyntaf posibl.

Mae gan y Gadeirydd rôl sylfaenol o ran cyfarfodydd. Fel arfer, bydd yn cadeirio cyfarfodydd y CLl a chyfarfodydd cyffredinol i aelodau'r mudiad, ond ni fydd hyn yn wir bob tro. Ambell dro gellid penodi Cadeirydd gwahanol ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol - bydd y ddogfen lywodraethu fel arfer yn amlinellu'r rheolau ar gyfer hyn. Mewn cyfarfodydd, dylai'r Cadeirydd sicrhau:

- bod y cyfarfod wedi ei alw'n unol â'r rheolau, wedi'i gynnal yn gyfreithlon a'i gofnodi'n gywir
- bod cofnodion unrhyw gyfarfodydd blaenorol yn cael eu cymeradwyo
- bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno ar unrhyw gamau y cytunwyd arnynt mewn cyfarfod blaenorol
- bod yr agenda'n cael ei dilyn a bod yr holl fusnes yn cael ei gwblhau
- bod y cyfranogwyr yn gweithredu'n ddemocrataidd ac mewn ffordd gydweithredol
- nad oes un person ormod o lais yn y cyfarfod ar draul pawb arall
- bod pwyntiau o weithdrefn a chyfraith yn cael eu hegluro os oes angen
- bod anghytundebau'n cael eu rheoli a'u datrys os yn bosibl

Mae rhagor o wybodaeth am gyfarfodydd ar gael yn ein taflenni gwybodaeth:

- *Cyfarfodydd Effeithiol* (2.3)
- *Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol Effeithiol* (2.4)

Yr Is-Gadeirydd

Mae gan rai mudiadau Is-Gadeirydd. Bydd y person hwn yn cymryd lle'r Cadeirydd pan fydd angen a gall helpu gyda phenderfyniadau sydd raid eu cymryd rhwng cyfarfodydd. Weithiau gall yr Is-Gadeirydd helpu gyda'r gwaith o drefnu cyfarfodydd a gall fod yn gyfrifol am feysydd penodol fel personél.

Yr Ysgrifennydd

Mae'r Ysgrifennydd yn gyfrifol am roi cefnogaeth ysgrifenyddol i'r CLl. Dylid gwahaniaethu rhwng rôl anrhydeddus ysgrifennydd mewn mudiad anghorfforedig, a'r diffiniad cyfreithiol o rôl Ysgrifennydd mewn cwmni.

Mewn mudiad anghorfforedig nid oes gorfodaeth i gael Ysgrifennydd oni bai fod y ddogfen lywodraethu'n mynnu hynny. Fodd bynnag, mae gan y rhan fwyaf o fudiadau ysgrifennydd, ac yn y mudiadau hynny sydd â staff cyflogedig bydd y rôl yn aml yn cael ei llenwi gan uwch aelod o staff. Mae tasgau'r Ysgrifennydd Anrhydeddus yn cynnwys y canlynol:

- **Cyfarfodydd:** helpu i lunio'r agendâu (ar y cyd â'r Cadeirydd); dosbarthu'r agendâu a phapurau'r bwrdd; trefnu'r ystafell gyfarfod; sicrhau bod cworwm yn bresennol; ysgrifennu a dosbarthu'r cofnodion, a gofalu am faterion gweinyddol eraill.
- **Dogfennau:** cadw rhestr o'r aelodau a chofnodion gweinyddol eraill; sicrhau bod dogfennau allweddol yn cael eu cadw'n ddiogel; trefnu i gynhyrchu'r adroddiad blynyddol; anfon dogfennau a ffurflenni at y rheoleiddwyr; sicrhau bod polisïau mewnol yn gyfoes; a sicrhau bod gan y mudiad yswiriant digonol.
- **Gweinyddu:** delio â gohebiaeth, y wasg a chyhoeddusrwydd, a darparu gwasanaethau ysgrifenyddol i'r CLl.

Yn flaenorol, roedd yn rhaid i gwmni cyfyngedig gael **Ysgrifennydd Cwmni** yn ôl y gyfraith cwmnïau, ond ers i Ddeddf Cwmnïau 2006 gael ei gweithredu, mae wedi dileu'r gofyniad am ysgrifennydd cwmni penodedig. Gellir penodi un yn wirfoddol, ond os gwneir penderfyniad i beidio â phenodi ysgrifennydd bydd rhaid i'r dyletswyddau gael eu cyflawni gan un ai gyfarwyddwr neu rywun arall sydd wedi'i awdurdodi i wneud y gwaith. Gall ysgrifennydd y cwmni fod yn aelod o'r CLl, cyflogai neu drydydd parti. Nid oes rhaid cael ysgrifennydd anrhydeddus etholedig ar wahân oni bai bod y ddogfen lywodraethu'n gofyn am hynny.

Mae'r dyletswyddau cyfreithiol penodedig sy'n rhaid i gwmni eu cyflawni wedi eu hamlinellu mewn deddfwriaeth ac yn Erthyglau Cymdeithasol y cwmni, a gall ysgrifennydd cwmni fod yn atebol am beidio cyflawni'r dyletswyddau hynny. Mae'r dyletswyddau hyn yn niferus, ond maent yn cynnwys y canlynol:

- sicrhau bod y Gofrestr Aelodau a'r Gofrestr Cyfarwyddwyr yn cael eu diweddaru
- sicrhau bod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal o fewn yr amserlen benodedig, a bod cyfarfodydd eraill yn cael eu galw ar ôl rhoi rhybudd priodol
- cadw cofnodion ym mhob cyfarfod perthnasol
- hysbysu Tŷ'r Cwmnïau o unrhyw newid mewn cyfarwyddwyr, cyfeiriad ayb
- llenwi'r ffurflen dreth a chyfrifon blynyddol
- sicrhau bod papur ysgrifennu'r cwmni'n cynnwys y wybodaeth ofynnol
- sicrhau bod dogfennau'r cwmni'n cael eu cadw'n ddiogel etc.

Y Trysorydd

Unwaith eto nid oes gorfodaeth gyfreithiol i gael Trysorydd ond bai fod y ddogfen lywodraethu'n datgan hynny, ond mae cael un yn cael ei dderbyn fel arfer da a bydd y rhan fwyaf o gyllidwyr yn mynnu hynny. Mewn mudiadau llai bydd y Trysorydd yn delio â phob agwedd o gyllid, ond wrth i'r mudiad dyfu bydd rhai swyddogaethau'n cael eu dirprwyo i unigolion eraill ac i is-bwyllgorau. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod y cyfrifoldeb cyfreithiol terfynol ar y CLl yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, ni ddylai'r Trysorydd gael rheolaeth lwyr dros gyllid y mudiad gan y byddai hynny'n cyfyngu ar y siawns o ganfod camgymeriadau, problemau ariannol posibl, ac yn waeth fyth, twyll.

Gall cyfrifoldebau'r Trysorydd gynnwys:

- cymryd yr awenau yn y gwaith o gynllunio a goruchwylio materion ariannol y mudiad
- sicrhau bod y mudiad yn ddiddyled ac mewn cyflwr ariannol iach
- sicrhau bod systemau priodol ar waith i gyllidebu, rheoli cyllid ac adrodd
- paratoi'r cyfrifon blynyddol ac adroddiadau ariannol eraill
- adrodd, dehongli ac egluro unrhyw wybodaeth ariannol angenrheidiol i'r CLl
- sicrhau bod y cyfrifon a'r systemau ariannol yn cael eu harchwilio fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith
- sicrhau bod y mudiad yn cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau treth, TAW ac Yswiriant Gwladol
- rheoli asedau sefydlog a stoc
- gweithredu fel llofnodydd ar gyfer sieciau, anfonebau, contractau a dogfennaeth berthnasol arall.

Gwybodaeth bellach

Llywodraethu Da – Cod i'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol, a *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i Ymddiriedolwyr a Phwyllgorau Rheoli*
www.ncvo-vol.org.uk

Nodweddion Elusen Effeithiol (CC10), a *Rheolaethau Ariannol Mewnol i Elusennau (CC8)*,
Elusennau a Chyfarfodydd (CC48), a
SORP, Cyfrifon Elusennau ac Adroddiadau: Beth sydd angen i chi wybod
www.charity-commission.gov.uk

Sefydliad Siartredig Ysgrifenyddion a Gweinyddwyr Cwmni
www.icsa.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland , Stryd y Ffynnon , Rhuthun , Sir Dinbych , LL15 1AF
Elusen Gofrestredig *1054322*

Ffôn: 01824 702441 office@dvsc.co.uk
Ffacs: 01824 705412 www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:04/01/2012

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk